



2.00pm, Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2022
Cyfarfod Rhithwir

COFNODION

Yn bresennol	
Enw	Corff/mudiad
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Y Cynghorydd Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Arolygydd Gary Phillips	Heddlu Dyfed-Powys
Mydrian Harries	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cynghorydd Elwyn Williams	Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Wyn Morris	Adran Gwaith a Phensiynau
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Andrew Charles	Llywodraeth Cymru

Hefyd yn bresennol	
Enw	Corff/mudiad
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Llinos Evans	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Rachel Clegg	Cyngor Sir Caerfyrddin
Mandy Rogers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Lesley Rees	Cyngor Sir Caerfyrddin
Gail Pearce-Taylor	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ian Llewelyn	Cyngor Sir Caerfyrddin
Carys Huntly	Cyngor Sir Ceredigion
Beth Cossins	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Amy Richmond-Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mark Galbraith	Cyngor Gwledig Llanelli

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Barry Liles, Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod rhithwir a dymunodd yn dda i Ros Jervis sy'n ymddeol.

Ymddiheuriadau	
Enw	Corff/mudiad
Noelwyn Daniel	Cyngor Sir Caerfyrddin
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Huw Thomas	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Rhian Dawson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jo McCarthy	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf
Kelvin Barlow	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
Catherine Mealing-Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

2. Cofnodion a Materion yn Codi

24 Tachwedd 2021

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

3. Asesiad Llesiant Drafft Sir Gaerfyrddin

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Asesiad Llesiant drafft ac fe'i hanfonwyd hefyd at Lywodraeth Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Phwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau'r Cyngor Sir. Roedd yr adborth a gafwyd gan y Pwyllgor Craffu yn gadarnhaol iawn o ran cynnwys a chyflwyniad, ac roedd yr adborth gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gadarnhaol, gan gydnabod bod y ddogfen wedi dilyn llwybr gwahanol gan ei bod yn fwy o sylwebaeth yn hytrach na dogfen ystadegol.

Diolchwyd i'r staff a baratodd yr asesiad a'r sefydliadau a roddodd fewnbwn i'r adroddiad.

Darparwyd trosolwg o'r dogfennau ychwanegol gyda meysydd allweddol wedi'u hamlygu. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant drafft rhwng 2 Rhagfyr a 20 Ionawr.
- Cafwyd 33 o ymatebion - 26 ar-lein a 7 yn ysgrifenedig gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Adran Tai'r Cyngor, Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor ar ran Partneriaeth Natur, Gwasanaethau Integredig (Cyngor a Bwrdd Iechyd), CNC a'r Bwrdd Iechyd/Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Tynnwyd sylw at newidiadau i'r adroddiad o ganlyniad i'r adborth.
- Yr Adroddiad Ymgynghori a Chynnwys gan gynnwys yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol a gafodd 609 o ymatebion.
- Mae'r ddogfen Ffynonellau Data yn cynnwys dolen i ffynonellau'r holl ddata a ddefnyddir yn yr adroddiad.
- Mae CNC wedi dilysu Dadansoddiad o'r Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd.
- Mae'r Proffiliau Llesiant Ardaloedd Cymunedol ar 6 lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch – nid ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Canol gan fod 25 o'r rhain yn y sir ac nid yw'r holl ddata ar gael ar y lefel is hon.
- Derbyniwyd astudiaethau achos gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, Tîm Integreiddio'r Blynnyddoedd Cynnar, Coleg Sir Gâr, yr Heddlu, Tîm Adfywio Tyisha a'r Bwrdd Iechyd.

- Ar ôl ei gymeradwyo, bydd yr Asesiad Llesiant yn cael ei gyfieithu, ei gyhoeddi a'i hyrwyddo yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai. Y cam nesaf fydd datblygu'r Cynllun Llesiant.
- Roedd pryderon ynghylch sut i fynd i'r afael â materion allweddol a nodwyd yn yr asesiad, megis gordewdra, tlodi, hunanladdiad a chostau byw.
- Cytunwyd yn unfrydol y dylai sefydliadau fod yn defnyddio'r data hwn mewn ffordd ystyrion i fynd i'r afael â'r materion allweddol.
- Mae'n bwysig bod yn onest yn yr hyn y gellir ei gyflawni a'r angen am ymyriadau â ffocws yn hytrach na cheisio mynd i'r afael â phob mater.

GWEITHREDU	
Ystyried y ffordd orau o gyhoeddi'r Asesiad Llesiant ac atodiadau	Tîm Cymorth y BGC
Sefydlu amserlenni ar gyfer Gorwel	Tîm Cymorth y BGC
Ystyried cynnwys data iechyd gyda'r dangosyddion Llesiant mewn asesiadau yn y dyfodol	Tîm Cymorth y BGC
Edrych ar ychwanegu nifer yr ymatebwyr i'r arolwg ar-lein yn ogystal â'r ganran yn yr adroddiad	Tîm Cymorth y BGC
Cysylltu â Beth Cossins i sefydlu gwybodaeth ychwanegol am iechyd i'w chynnwys ym mhob proffil cymunedol	Tîm Cymorth y BGC
Ystyried crynodeb ffeithlun ar gyfer yr Asesiad Llesiant	Tîm Cymorth y BGC
Dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio data Llesiant mewn ffordd ystyrion ar draws sefydliadau BGC	Pob un

4. Datblygu Cynllun Llesiant newydd Sir Gaerfyrddin

Darparwyd trosolwg o'r amserlenni a awgrymwyd ar gyfer datblygu'r Cynllun, er mwyn bodloni'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi ym mis Mai 2023. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

Dywedwyd bod y BGC wedi cymryd camau o'r blaen i sicrhau cyllid ac adnoddau ychwanegol, i gynnal prosiectau fel Cronfa Her yr Economi Sylfaenol. Bydd ffrydiau ariannu newydd yn dod ar-lein ac mae angen bod yn barod i fanteisio ar y rhain a all ychwanegu gallu at waith y BGC sy'n arwain at ganlyniadau.

5. Canllawiau Ffosffad – briffio

Rhoddodd Gail Pearce-Taylor, Swyddog Rheoli Maetholion y Cyngor Sir, gyflwyniad ar oblygiadau Canllawiau Ffosffad CNC ar gyfer Defnydd Tir.

Mae ansawdd afonydd yn effeithio ar nifer o agweddau gan gynnwys pysgodfeydd, twristiaeth, cyfleoedd cyflogaeth, cyfleoedd datblygu a manteision iechyd cadarnhaol. Mae ffosffad yn fwyn hanfodol sy'n digwydd yn naturiol ond gall achosi problemau i fywyd gwyllt mewn meintiau uchel. Mae'n mynd i afonydd sy'n llifo o amaethyddiaeth (gwrtaieth a thail); dŵr gwastraff o gartrefi (glanedyddion, siampŵ, glanhawyr); carthion cartrefi; gwaith trin dŵr gwastraff nad oes ganddo allu tynnu ffosffad ac yn uniongyrchol drwy orlifo carthffosydd sy'n ddigwyddiad cynyddol.

Arweiniodd tystiolaeth newydd ar effeithiau niweidiol ffosffad, ynghyd ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, at ddatblygu'r canllawiau newydd, sy'n berthnasol i afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn unig; mae 4 ohonynt yn Sir Gaerfyrddin – Teifi, Tywi, Cleddau a Gwy.

Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddatblygiad o fewn dalgylch ACA, a fydd yn arwain at fwy o ddŵr gwastraff, sicrhau niwtraliaeth maetholion. Bydd hyn yn effeithio ar gymunedau mewn nifer o ffyrdd:

- Mae dalgylchoedd gwledig yn annhebygol o gael buddsoddiad costus mewn seilwaith caled
- Darparu tai fforddiadwy oherwydd cyfyngiadau cynllunio
- Goblygiadau cymdeithasol – cydlyniant cymunedol, y gallu i gadw cenedlaethau iau yn y sir, diwylliant Cymru a'r Gymraeg
- Goblygiadau economaidd – Effaith menter Deg Tref (Llandeilo, Llanymddyfri, Llanybydder a Chastell-newydd Emlyn)
- Gwytnwch y sector adeiladu.

Mae nifer o atebion i helpu i hwyluso datblygiadau niwtral o ran maetholion ynghyd â mesurau i wella cyflwr afonydd:

- Gweithio gyda Dŵr Cymru i wella seilwaith
- Mae'r atebion mwyaf effeithiol yn seiliedig ar natur – systemau draenio cynaliadwy, gwlyptiroedd, creu coetiroedd, plannu afonol, sribedi o dir clustog, cnydau gorchudd a rheoli tir
- Gwaith trin preifat.

Camau a gymerwyd gan CSC

- Creu cyfrifiannell ffosffad (cyntaf yng Nghymru)
- Comisiynu canllawiau i helpu i weithredu mesurau lliniaru
- Cydgysylltu agenda defnydd tir – gweithio gyda thirfeddianwyr.

Y camau nesaf

- Gweithio gyda thirfeddianwyr
- Budd tir sy'n eiddo i'r cyhoedd
- Sicrhau'r manteision gorau posibl i Sir Gaerfyrddin – lliniaru llifogydd, Carbon Sero Net, ansawdd aer, argyfwng natur, gwerth amwynder
- System masnachu credyd.

Cafwyd trafodaeth a chodwyd phryderon amrywiol megis yr effaith ar gydlyniant cymunedol, cyflogaeth a'r iaith Gymraeg, cynlluniau adfer, datblygu rhanbarthol a phedair o'r fenter Deg Tref. Mae arfer da ar gael i ddysgu ohono ac mae sianeli ariannu yn dechrau dod i'r amlwg.

Ar hyn o bryd mae Dŵr Cymru yn ystyried nodi prif ffynhonnell ffosffad yn yr afonydd. Er y cydnabyddir yn gyffredinol mai'r sector amaethyddol sy'n cyfrannu fwyaf at y mater hwn, mae pob sector yn cyfrannu.

GWEITHREDU

Mapio defnydd tir sefydliadau partner a gwaith cydweithredol posibl	Pob un
---	--------

6. Unrhyw Fater Arall

Cam 2 Economi Sylfaenol

Dywedodd Gwyneth Ayers fod gwaith yn cael ei wneud gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a bod dwy lot wedi mynd allan i dendr - un ar gyfer y Bwrdd Iechyd a'r llall ar gyfer y ddarpariaeth prydau ysgol. Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am brydau ysgol am ddim i bawb wedi newid y

maes gorchwyl. Fodd bynnag, mae'r gwaith dichonoldeb yn edrych ar yr hyn y mae angen ei newid er mwyn gallu defnyddio cynnyrch lleol mewn prydau ysgol.

Ffoaduriaid

Dywedodd Emlyn Dole fod ymateb i argyfwng Wcráin wedi cael ei drafod ar lefel genedlaethol ac y bydd yr Awdurdod yn derbyn ffoaduriaid.

Comisiwn y Gymraeg

Yn dilyn marwolaeth sydyn Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg, bydd llythyr cydymdeimlad yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru.

Grant BGC

Rhoddwyd cymeradwyaeth ar gyfer grant blynyddol BGC Llywodraeth Cymru, a ddefnyddir i ariannu swydd Cydgysylltydd Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae Carys yn gadael i gymryd swydd arall a bydd gweithiwr newydd yn cymryd ei lle. Diolchwyd i Carys am ei gwaith.

Etholiadau llywodraeth leol

Bydd y Cyngor yn mynd i'r cyfnod cyn yr etholiad o 18 Mawrth a bydd protocol ar waith i sicrhau bod y cyngor yn cynnal safiad niwtral ac nad yw'n rhoi amlygrwydd na chyhoeddusrwydd i unrhyw ymgeiswyr neu bleidiau. Ni effeithir ar y modd y darperir gwasanaethau'r cyngor o hyd.

Ymgynghoriad ar Goedlannau Coffa

Ar hyn o bryd, mae ymgynghoriad ar y Coedlannau Coffa yn fyw ar wefan CNC ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu.

GWEITHREDU	
Anfon llythyr cydymdeimlad at Lywodraeth Cymru yn dilyn marwolaeth Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg	Tîm Cymorth y BGC
Cwblhau ymgyngoriad CNC ar gaffael tir ar gyfer coedlannau coffa	Pob un